

# Grant Datblygu Disgyblion – Dyraniad Plant sy'n Derbyn Gofal

Medi 2020

## Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA

Eurwen Williams BA (Hons)

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# 1 RHAGARWEINIAD

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru (LLC) y Grant Datblygu Disgyblion (GDD) er mwyn cael effaith barhaol ar ganlyniadau dysgwyr difreintiedig, i'w helpu i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial llawn.

Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu elfen ar wahân o'r cyllid Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant a arferai dderbyn gofal mewn addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu  cyllid yn flynyddol i'r consortia addysg ar sail ranbarthol gan ddefnyddio data ar nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ardal yr awdurdod lleol (a oedd yn 2019-20 yn gysylltiedig â Chyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth yng Nghymru 2018).

Mae GwE, y consortiwm effeithiolrwydd ysgolion a gwella rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, yn cydlynu ac yn gweinyddu elfen Plant sy'n Derbyn Gofal y Grant Datblygu Disgyblion.

Cyfanswm cyffredinol Grant Datblygu Disgyblion y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 oedd £102,575.

£86,473 oedd y gwariant a gafwyd yn uniongyrchol gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod y cyfnod a chafwyd £16,100 o wariant ychwanegol gan GwE ac a gofnodwyd yn ganolog gan y consortiwm.

# 2 SGÔP

Cyfyngwyd yr adolygiad i'r Grant Datblygu Disgyblion (dyraniad Plant sy'n Derbyn Gofal) a ddyrannwyd i'r Cyngor drwy GwE ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020 ac roedd cyfyngiadau pellach ar y cwmpas fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd gwaith profi cyfyngedig o sampl o wariant a gofnodwyd i ddarparu sicrwydd bod y gwariant a hawliwyd yn gymwys ac wedi'i ddatgan yn deg.
- Nid yw'r gwaith yn darparu sicrwydd llwyr nad oes unrhyw gamgymeriadau, colledion neu dwyll yn bodoli.

# 3 CRYNODEB O'R GWAITH PROFI

## 3.1 DATGANIAD O WARIANT REFENIW 2019/20 – MAE COFNODION YN COFNODI'R GWIR SYMIAU A GAFWYD YN GYWIR

| | |
|---|---|
| Dyraniad GDD Plant sy'n Derbyn Gofal (gan GwE): | |
| Clystyrau Lleol (a gymeradwywyd gan GwE) | £76,931.75 |
| Elfennau lleol: bwrsariaethau, rhwydweithio a dysgwyr tu allan i Gymru | £25,643.75 |
| Cyfanswm dyraniad | £102,575.50 |
| Llai gwariant a gafwyd yn uniongyrchol gan GwE | £16,100.00 |
| Balans | £86,475.00[1] |
| | |
| Gwir Wariant Cymwys a Gafwyd | £86,473.00[2] |

[1] Incwm ar y ledjer ar gyfer 2019-20 wedi cael ei ostwng gan £144.10 o ganlyniad i addasiad i'r dyraniad grant yn 2018-19

[2] Addasiad o £2 yn y gwariant a hawliwyd oherwydd amrywiad yn yr anfoneb gan Gyngor Sir Ddinbych (croniad 2018-19)

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y Grant a Hawliwyd | £86,473.00 |
| Hawl i Grant | £86,473.00 |
| Amrywiad | Dim |

Mae'r Gwasanaeth Cyllid yn cadw taenlen i gofnodi manylion y gwariant a gafwyd mewn perthynas â'r grant. Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion ar wahân ar gyfer gweithgarwch dan y grant yn y ledjer ariannol yn erbyn y cod canolfan cost AD799, ac mae'r incwm grant a ddyrennir i Blant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei gofnodi dan y côd manylion S0004 ac mae gwariant y grant yn cael ei nodi ar wahân dan godau manylion amrywiol eraill sy'n ymwneud â thaliadau i glystyrau lleol, bwrsariaethau, gwasanaethau a deunyddiau.

Gwnaethom ddilysu fod y ffigwr a ddatganwyd ar gyfer y gwir wariant a gafwyd, cyfanswm o £86,473.00, yn cyfateb i'r ffigwr ar gyfer cyfanswm y gwariant ar gyfer y grant hwn yn y ledjer ariannol yn y cyfnod 2019/20 (gyda mân amrywiad oherwydd gwahaniaeth o £2 yn ymwneud ag anfoneb gan Gyngor Sir Ddinbych).

Er mwyn darparu sicrwydd fod y gwariant a gofnodwyd yn cynrychioli'n gywir y gwir symiau a gafwyd gan y Cyngor mewn perthynas â phwrpas y grant, adolygwyd sampl o eitemau gwariant a restrwyd ar y daenlen 'AD799 monitro Plant sy'n Derbyn Gofal' a gedwir gan y Gwasanaeth Cyllid a'u cysoni yn erbyn y ledjer ariannol a system daliadau credydwyr y Cyngor, a gyda dogfennau cefnogol. Gwnaed gwaith profi fel a ganlyn:

Mae rhan o'r grant ar gyfer bidiau clwstwr, sef ceisiadau am symiau dros £1,150. Mae ysgolion yn anfon y ceisiadau hyn yn uniongyrchol at GwE, at yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant ar gyfer Llesiant. Mae panel yn GwE yn adolygu pob cais ac yn derbyn mewnbwn gan Gydlynydd Addysg Plant Sy'n Derbyn Gofal y Cyngor. Mae GwE yn hysbysu'r Cyngor am y ceisiadau llwyddiannus a'r symiau perthnasol i'w talu. Roedd ein profion yn cynnwys adolygu bid clwstwr am £18,750, a adnabuwyd o'r daenlen 'AD799 monitro Plant sy'n Derbyn Gofal', y gwnaethom ei gysoni yn erbyn y ledjer ariannol a'i ddilysu drwy adolygu'r ffurflen gais am grant a gohebiaeth gan GwE yn rhoi cyfarwyddiadau i dalu'r swm y cytunwyd arno yn dilyn cyflwyno cais llwyddiannus.

Mae'r grant yn cynnwys bidiau lleol hyd at swm o £1,150 hefyd. Mae ysgolion yn anfon y ceisiadau hyn at Gydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal y Cyngor, ac maent yn cael eu trafod mewn panel lleol. Mae'r panel lleol yn cynnwys y Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, Uwch Reolwr Lles (Addysg) a Chydlynydd Cyllid Addysg. Roedd ein profion yn cynnwys bid lleol gan ysgol uwchradd i ddatblygu eu Canolfan Cefnogi Disgyblion. Derbyniom y cais am grant, am swm o £8,900, sy'n uwch na'r terfyn o £1,150. Dilyswyd fod y panel wedi cymeradwyo grant o £5,000 mewn perthynas â'r cais hwn a chafwyd tystiolaeth fod Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant - Llesiant GwE wedi bod yn rhan o'r broses o adolygu'r cais a chymeradwyo'r taliad grant.

Mae gwariant arall, (h.y. gwariant nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol ag ysgolion), yn cael ei gofnodi dan gôd ar wahân, sy'n ymwneud â gwasanaethau a deunyddiau ac yn cynnwys, er enghraifft, llogi ystafelloedd a lletygarwch ar gyfer digwyddiadau rhwydweithio lleol. Roedd ein profion yn cynnwys adolygu sampl o ddau o drafodion ar gyfer gwariant arall fel a ganlyn:

Mae'r cyntaf, am swm o £452.50, yn ymwneud â chroniad dyledwr o'r llynedd (2018-19). Mae'r croniad ar gyfer gwerth net y trafodiad, £377.08 (heb gynnwys TAW) ac yn ymwneud â digwyddiad rhwydweithio a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019. Talodd y Cyngor yr anfoneb, dyddiedig 25/03/2019, drwy'r system daliadau credydwyr ar 08/04/2019, gan hawlio ad-daliad am yr elfen TAW. Dilyswyd y symiau gennym (a gafodd eu cofnodi o dan godau amrywiol) yn erbyn dogfennau gwreiddiol a chanfuwyd tystiolaeth foddhaol o'r gwariant.

Mae'r ail drafodiad am swm o £257.48 (heb gynnwys TAW) yn wariant cronnus ar gyfer 2019/20, yn ymwneud â chais am gymorth grant i brynu gliniadur i alluogi plentyn sy'n derbyn gofal i barhau i wneud gwaith ysgol gartref ar ôl y dyddiad pan ddaeth y cyfnod clo cenedlaethol i rym oherwydd coronafeirws (23/03/2020). Gwelsom fod gan y Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal dystiolaeth o'r pryniant a threfnwyd ad-daliad drwy'r system daliadau credydwyr, a phroseswyd y taliad ar 14/05/2020, gan gynnwys yr elfen TAW. Oherwydd yr amgylchiadau, ni

chynhaliwyd panel ffurfiol ond cadarnhaodd y Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal iddi drafod y pryniant gyda'r Uwch Reolwr Lles (Addysg) a dod i gytundeb yn ei gylch.

O'r profion sampl a gynhaliwyd, gallwn ddarparu sicrwydd fod y Datganiad o Wariant Refeniw yn adlewyrchu'n gywir y gwir wariant cymwys a gafwyd mewn perthynas â'r Grant Datblygu Disgyblion – elfen Plant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20.

### 3.2 GWARIANT YN UNOL Â THELERAU AC AMODAU / DIBEN Y GRANT

Mae GwE wedi datblygu canllawiau ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, neu a arferai dderbyn gofal, ar draws y rhanbarth. Dosbarthwyd y canllawiau i uwch swyddogion, Cydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn y chwe awdurdod lleol, ysgolion ac uwch swyddogion yn GwE, yn ogystal ag aelodau'r grŵp Sicrhau Ansawdd Strategol Rhanbarthol. Mae'r canllawiau'n cynnwys meini prawf y mae'n rhaid i geisiadau gan ysgolion eu bodloni gan gynnwys dangos sut y byddant yn defnyddio'r cyllid i gael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad ac ymgysylltiad dysgwyr.

Down i'r casgliad fod ein gwaith profi ar sampl o drafodion unigol mewn perthynas â'r grant hwn fod y gwariant yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant. Roedd y gwariant a gafwyd yn ymddangos yn rhesymol er mwyn cwrdd ag amcanion y grant fel y nodwyd gan GwE.

### 3.3 CYNNAL MESURAU RHEOLI A CHOFNODION I SICRHAU FOD Y GRANT YN CAEL EI WEITHREDU'N BRIODOL

Gwelwyd tystiolaeth fod y Gwasanaeth Cyllid yn cadw taenlen i gofnodi gwariant grant ar sail barhaus ar gyfer pob blwyddyn y derbynnir y grant a bod y Cyngor yn nodi incwm a gwariant ar wahân ar gyfer y grant yn y ledjer. Mae'r Cydlynydd Cyllid Addysg yn mynychu cyfarfodydd panel, ynghyd â'r Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, yr Uwch Reolwr Lles (Addysg) ac Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant - Llesiant GwE. Mae proses gais (gweler 3.1 uchod) ac mae'r Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn cadw cofnodion anffurfiol ar gyfer y panelau lle mae swyddogion yn trafod ceisiadau ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cymeradwyo neu wrthod ceisiadau yn unol â'r meini prawf cymeradwy.

Fel y tystia ein profion sampl, roedd y Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Cydlynydd Cyllid Addysg yn gallu darparu tystiolaeth y cymeradwywyd taliadau mewn perthynas â cheisiadau clwstwr a bwrsariaethau ac ar gyfer gwariant arall, roedd y Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn gallu darparu tystiolaeth gefnogol ar gyfer y trafodion.

Rydym yn fodlon fod y Cyngor yn cadw cofnodion priodol ar gyfer gweithgarwch dan y grant a bod camau rheoli a systemau monitro priodol yn bodoli i sicrhau fod y grant yn cael ei weithredu'n gywir.

## 4 BARN SICRWYDD

O'n hadolygiad o fesurau rheoli a chofnodion y grant, gallwn roi sicrwydd fod mesurau rheoli a chofnodion digonol a phriodol wedi eu cynnal gan y Cyngor mewn perthynas â'r Grant Datblygu Disgyblion – elfen Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

Gallwn gadarnhau hefyd fod ein gwaith profi yn rhoi sicrwydd fod y gwariant a hawliwyd yn gymwys yn unol â thelerau ac amodau'r grant, a'i fod wedi cael ei ddatgan yn deg yng nghyfrifon y Cyngor.

Nid ydym wedi nodi unrhyw risgiau y mae angen eu dwyn i sylw rheolwyr.

| Cyfradd Sicrwydd | Diffiniad |
|---|---|
| SICRWYDD SYLWEDDOL | Mae trefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheoli mewnol yn **dda**.<br><br>**Ni chanfuwyd unrhyw Faterion/Risgiau sylweddol na pherthnasol** |

# RHESTR GYLCHREDEG A DYDDIADAU ALLWEDDOL

| Adroddiad Terfynol |
|---|
| • Marc Jones - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| • Rhys H Hughes - Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| • Llio Jones - Rheolwr Cyllid, Adnoddau |
| • Heulwen Owen - Cydlynydd Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg |
| • Gareth J Roberts - Uwch Gyfrifydd - Addysg, Adnoddau |
| • Y Cynghorydd Robin Wyn Williams, Aelod Portffolio Cyllid |
| • Y Cynghorydd R Meirion Jones, Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant |
| • Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| • Gwion Elis Jones - Uwch Gyfrifydd (Cyngor Gwynedd) drwy Cyllid |

| Dyddiadau Allweddol | |
|---|---|
| Cychwynnwyd yr Adolygiad | Medi 2020 |
| Cwblhawyd yr Adolygiad | Medi 2020 |
| Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | Rhagfyr 2020 |
| Dyddiad arfaethedig ar gyfer dilyn i fyny | Amherthnasol |